Gmail

Helen Treherne <ptecommunitycouncil@gmail.com>

Ymgynghoriad Strategaeth Toiledau Lleol / Local Toilets Strategy Consultation

1 message

Wolf-Williams, Sian <WOLFES@caerphilly.gov.uk> Wed, Dec 19, 2018 at 3:12 PM

Ymgynghoriad Strategaeth Toiledau Lleol	**Local Toilets Strategy Consultation**
O dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 mae gennym ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Toiledau Lleol ar gyfer y fwrdeistref sirol.	Under the Public Health (Wales) Act 2017 we have a duty to prepare and publish a Local Toilet Strategy for the county borough.
Mae'n rhaid i ni gyhoeddi ein Strategaeth Toiledau Lleol erbyn 31 Mai 2019 a chynnwys cynllun yn dangos sut y byddwn yn cwrdd ag anghenion a nodwyd. Nid yw'n ofynnol i ni ddarparu a chynnal a chadw toiledau cyhoeddus eu hunain ond mae'n rhaid i ni gymryd golwg strategol ar sut y gellir darparu cyfleusterau a sut y mae ein poblogaeth leol yn gallu cael mynediad iddynt.	We must publish our Local Toilet Strategy by 31 May 2019 and include a plan showing how we will meet identified needs. We are not required to provide and maintain public toilets themselves but must take a strategic view as to how facilities can be provided and accessed by our local population.
Yn ystod hydref 2018, cwblhawyd asesiad o angen, gan gynnwys proses ymgynghori cyhoeddus, i nodi'r ddarpariaeth bresennol, yr angen ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a'r bylchau yn y ddarpariaeth. Mae adborth a chanfyddiadau'r gwaith hwn wedi'u cynnwys yn y strategaeth ddrafft. Cyhoeddir y wybodaeth hon yn llawn ochr yn ochr â'r strategaeth ddrafft, sydd bellach yn agored i gyfnod o ymgynghori.	During Autumn 2018, an assessment of need, including a public consultation exercise, was completed to identify existing provision, current and future need and gaps in provision. Feedback and findings from this work are incorporated into the draft strategy. This information in full is published alongside the draft strategy which is now open to a period of consultation.
Anogir trigolion ac ymwelwyr i'r fwrdeistref sirol i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar ein Strategaeth Ddrafft Toiledau Lleol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhedeg o 14 Rhagfyr 2018 tan 8 Mawrth 2019.	Residents of and visitors to the county borough are encouraged to respond to this consultation on our Draft Local Toilets Strategy. This consultation will run from 14 December 2018 to 8 March 2019.
Os ydych chi'n cael anhawster i gael mynediad i'r arolwg drwy'r wefan a hoffech drafod dull arall o'i gwblhau, cysylltwch â'r Tîm Polisi, naill ai drwy e-bost: tîmpolisi@caerffili.gov.uk neu drwy ffonio 01443 811368.	If you have difficulty accessing the survey via the website and would like to discuss an alternative method of completion, please contact the Policy Team, either by email : policyteam@caerphilly.gov.uk or by telephoning 01443 811368.
https://www.caerphilly.gov.uk/involved/Consultations/Local-toilet-strategy-consultation?lang=cy-gb	https://www.caerphilly.gov.uk/involved/Consultations/Local-toilet-strategy-consultation?lang=en-GB